

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **11 Rhagfyr 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-12/18: Presennol**

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts;

Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-12/18 Ymddiheuriadau:**

Cyng. William A Evans; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Sian Williams

### **3-12/18: Datgan diddordeb**

Cyng. Wayne Roberts ar gyfer eitem C18/0991/35/LL - Cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd i godi estyniad cefn deulawr - Garreg Lwyd, Wellington Terrace, Criccieth, LL52 0DB

### **4-12/18 Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd 2018**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-12/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)**

*Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau*

### **6-12/18: Gohebiaeth**

- a. Cyngor Gwynedd -Holiadur Toiledau Cyhoeddus - e-bost 8 Tachwedd 2018

Nodwyd bod holiadur toiledau cyhoeddus wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Nid oedd yn bosib i'r Cyngor ei lenwi fel corff.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth.

- b. Swyddfa Archwilio Cymru -Datganiad i'r Wasg - yn nodi bod angen i Gyngorau feddwl a gweithredu'n wahanol i gynnal gwasanaethau yn ardaloedd gwledig Cymru -roedd yn asesiad ar sut y mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i gymunedau gwledig.- e-bost 13 Tachwedd 2018 -

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth.

- c. Un Llais Cymru - Cynhadledd Arloesol a Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2019 - e-bost 13 Tachwedd 2018.

Nodwyd bod trydedd gynhadledd i'w gynnal ar 28 Mawrth 2019 - nodi bod y gwobrau yn gyfle i'r cyngor arddangos y gwasanaethu a ddarpara i'w gymuned ac

mae'n gyfle i gynghorwyr a chlercod dderbyn y gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu.

**Penderfyniad:** i gyflwyno cais ar gyfer prosiect Cofio Cyfraniad Cricieth - roedd tri chategori yn bosib.

- d. Arloesi Gwynedd - galwad agored i dreialu dull creadigol ac arloesol i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Stryd Fawr - e-bost 15 Tachwedd 2018.

Roedd Arloesi Gwynedd yn chwilio am 3 cymuned i gydweithio â hwy er mwyn treialu dulliau newydd ac arloesol a fyddai'n:

- Cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Stryd, ac yn sgil hynny i'r ardal yn ehangach;
- Cynyddu lefel o wariant yn lleol

Bydd hyd at £15,000 ar gael i gymunedau ddatblygu'r prosiect (bydd angen i'r gymuned gyfrannu 10% o'r gost hefyd)

Roedd gan y Cyngor Tref, drwy'r gwaith ar y Cynllun Cymunedol, strwythur i fedru gwneud cais am hwn mewn partneriaeth gyda'r gymuned - gweithgor economi sy'n adrodd i'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth dyddiad cau 7/01/2019 .

**Penderfyniad:** Cytuno y dylid cyflwyno bid gyda chefnogaeth y Cyngor Tref mewn egwyddor am fyny at £1,500 i gefnogi cais llwyddiannus.

- e. Arloesi Gwynedd – Cronfa Peilota Gwynedd – e-bost 4 Rhagfyr 2018

Roedd grant fyny at £10,000 ar gael – dyddiad cau 25/01/2019. Roedd gan y Cyngor Tref, drwy'r gwaith ar y Cynllun Cymunedol, strwythur i fedru gwneud cais am hwn mewn partneriaeth gyda'r gymuned.

**Penderfyniad:** I gynnal cyfarfod o'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol am 6 o'r gloch ar Ionawr 8fed i hel syniadau ar gyfer bid posib.

- f. Briciau llithrig ar y Maes - e-bost i Gyngor Gwynedd 2 Rhagfyr 2018

Nodwyd bod y Cyng. Robert Cadwalader wedi gyrru e-byst i swyddog Cyngor Gwynedd i dynnu sylw at y ffaith bod y Maes yn llithrig i ofyn iddynt roi 'jet wash' i'r ardal cyn Croeso Dolig - nid oedd hyn wedi ei wneud. Ar y dydd Sul bu i ddynes lithro a disgyn a gorfod mynd i'r Ysbyty. Mae'r Cynghorydd Eirwyn Williams wedi dilyn y mater fyny ac mae'r Cyngor yn cysylltu gyda'r unigolyn am ragor o fanylion. Yn ogystal roedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn glanhau a thorri gwrychoedd o Faes Aberistedd hyd at Ynysgain, torri'r topiau a'r ochrau, chipio a chlirio.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth.

## 7-12/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0991/35/LL – Cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd i godi estyniad cefn deulawr – Garreg Lwyd, Wellington Terrace, Criccieth, LL52 0DB  
Roedd y Cyngor Tref wedi ystyried y cais yn y cyfarfod diwethaf a phenderfynu danfon sylwadau nad oedd digon o wybodaeth wedi dod i law am y cais diwygiedig. O ganlyniad mae yna e-bost wedi cyrraedd gan Swyddog o'r Adran Gynllunio yn esbonio'r addasiad i'r cynlluniau. Mae'r elfen oedd yn pery pryder yn wreiddiol nawr wedi ei ddileu. Felly cais ar

gyfer estyniad deulawr ar y cefn oedd gerbron -roedd wedi ei leoli i gefn yr eiddo presennol sydd tu hwnt i edrychiadau cyhoeddus amlwg.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

- b. C18/1082/35/LL - Cais ar gyfer codi tŷ newydd a mynedfa gerbydau- Tir rhwng Hafan Deg a Sibrwd y Gwynt, Morannedd, Criccieth, LL52 OPP

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

- c. C18/1088/35/CT Cais i gynnal gwaith gan gynnwys torri coed o fewn ardal gadwraeth - Tŷ Criccieth, Porthmadog Road, Criccieth, LL52 OHQ

**Penderfyniad:** Danfon sylwadau nad oedd gwrthwynebiad ar sail bod ymrwymiad i gynnal y gwaith a nodwyd yn yr adroddiad.

### **8-12/18: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref**

Nodwyd bod y rhybudd o sedd wag wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle. We am y cyfnod penodol er mwyn rhoi siawns i etholwyr ddefnyddio eu hawl i ofyn am etholiad. Os na fydd cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 14 Rhagfyr bydd hawl gan y Cyngor i gyfethol i'r sedd wag.

**Penderfyniad:** Os na fydd cais am etholiad cytunwyd y dylai'r Clerc rhoi'r rhybudd priodol am fwriad y Cyngor i lenwi'r sedd wag drwy gyfethol, gan wahodd ceisiadau erbyn 31 Ionawr 2019.

### **9-12/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref 2017-18**

Roedd gohebiaeth y BDO dyddiedig 30 Tachwedd 2018 yn nodi'r materion mwyaf arwyddocaol y credant y dylid eu hystyried cyn i'r Cyngor gymeradwyo ac ardystio'r Ffurflen Flynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau). Ei bwriad oedd cyhoeddi: tystysgrif ac adroddiad diamod ac roedd copi gyda materion eraill roeddynt yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt wedi ei gylchredeg. Roedd angen newydd Blwch 12 "Asedau sefydlog" i £74,742 i gytuno â'r gofrestr asedau. Roedd y Clerc fel RFO wedi gwneud y cywiriadau angenrheidiol ac wedi ail-ardystio'r Ffurflen Flynyddol drwy lofnodi a dyddio'r adran ail-gymeradwyo ac ail-ardystio o dan yr adran cymeradwyo ac ardystio - roedd angen i Gadeirydd y cyfarfod lofnodi ac arwyddo'r ffurflen.

Roedd angen hefyd i'r Cyngor drafod yr argymhelliad bod cofrestr asedau'r Cyngor yn cael ei ddiweddarau i gynnwys dyddiad caffael, cost prynu a lleoliad pob ased sydd ganddo cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Argymhelliad y BDO: "Dylai bod cofrestr asedau gan y cyngor i helpu sicrhau bod gwerth yr asedau a'r buddsoddiadau a gofnodir yn gywir, cyn belled â bod hynny'n bosibl, ac i sicrhau bod y cyngor yn diogelu ei asedau. Dylai'r Archwilydd Mewnol ddilysu cywirdeb cofrestr o'r fath yn ei adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol y cyngor."

Nodwyd bod gan y Cyngor Tref gofrestr asedau gyda'i lleoliad (nid oedd y BDO wedi gofyn am gopi o hwn) - ond bod y gwerthoedd mewn tabl ar wahân wedi ei gyflwyno i'r BDO. Nid oedd y gofrestr asedau yn dangos pryd eu harchebwyd nac ychwaith y gwariant arnynt. Roedd y gofrestr asedau gyda'u lleoliad wedi ei wirio gan yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2017/18 ac roedd hyn yn digwydd yn flynyddol. Nid oedd y gofrestr gyfredol yn cynnwys y gwariant ar yr asedau ac mi fyddai'r gwariant yma wedi digwydd dros gyfnod o flynyddoedd - - roedd yn rhaid gweld ffordd resymol o sicrhau cofnod o asedau gyda'u gwerth fel sydd yn yr argymhelliad "cyn belled â bod hynny'n bosibl."

## **Penderfyniad:**

Derbyn manylion tystysgrif barn y BDO a barn yr archwiliad arfaethedig ei bod am gyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod - ac ail-gymeradwywyd y ffurflen flynyddol a llofnodwyd gan y Cadeirydd. Gofynnwyd i'r Clerc drafod mater diweddarau'r gofrestr asedau gyda'r archwilydd mewnol er mwyn diweddarau'r wybodaeth a chymeradwyo'r gofrestr cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## **10-12/18** Is-bwyllgor Cyllid, Polisi, Rheolaethol – cyfarfod 28 Tachwedd 2018

Trafodwyd argymhellion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd gan gynnwys Cyllideb 2019/20 a lefel praesept 2019/20.

## **Penderfyniadau :**

### **a. Cofnod 6-11/18 Ethol aelod o'r Cyngor i'r Is-bwyllgor**

Roedd lle gwag ar yr Is-bwyllgor o ganlyniad i farwolaeth y Cyng. Henry Jones

**Penderfyniad** ethol y Cyng. Dr Ian Rees

### **b. 7-11/18 Diweddariad o restr Cynghorwyr sy'n medru arwyddo sieciau ar ran y Cyngor Tref**

Roedd angen diweddarau'r rhestr – sy'n medru arwyddo sieciau

**Penderfyniad** – diweddarau'r rhestr pan fydd y Cyngor wedi llenwi'r sedd wag a hefyd i ychwanegu enw'r Clerc.

### **c. 9-11/18 Diweddariad ar gyfrifon 2018-2019**

**Penderfyniad** Derbyn yr adroddiad a'r casgliad i weithredu ar gyfer printer A3.

### **d. 10-11/18 Cyllideb Drafft 2019-20**

Nodwyd nad oedd lefel praesept y Cyngor Tref o £36,000 bellach yn gynaliadwy ar gyfer costau blynyddol y Cyngor Tref ac roedd angen ystyriaeth ofalus ar gyfer gosod lefel y praesept ar gyfer 2019/20. Nodwyd y wybodaeth gyllidol yn daenlen a ystyriwyd yn 9-11/18 uchod sy'n nodi bod a £30,418.09 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'. Cafodd yr arian wrth gefn ystyriaeth wrth osod y gyllideb ar gyfer 2019-20. Trafodwyd y materion canlynol ar gyfer cyllideb 2019-20:

#### **1. Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**

- i. Roedd yn rhaid i Gynghorau rhoi taliad yn ôl o'r costau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n ddibynnol er mwyn caniatáu aelodau ymgymryd â'i dyletswyddau a hefyd lwfans o £150 yr aelod (does dim rhai i gynghorwyr dderbyn y tal ).  
Costau Cynghorwyr - ar gyfer adroddiad lwfansau uchod £150 yr aelod = 12 x £150 = £1800

#### ii Cronfa Cadeirydd Cyngor Tref Criccieth

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhoi- £200 y Flwyddyn i Gronfa'r Cadeirydd a chostau treuliau teithio/parcio. Roedd hawl gan y Cyngor dalu fyny at £500 yr un i hyd at 5 person am swyddogaethau penodedig. Mae hyn yn ogystal â'r £150 ar gyfer costau. Pennwyd lefel taliadau ar gyfer lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau.

**Penderfyniad:** i barhau i dalu £200 i gronfa'r Cadeirydd ac i ad-dalu lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau i Gynghorwyr.

2. Costau rhedeg toiledau cyhoeddus Criccieth £6k  
**Penderfyniad** i barhau i dalu'r cyfraniad at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus i Gyngor Gwynedd.
3. Costau torri gwair £5k  
**Penderfyniad:** i barhau i dalu'r cyfraniad at doriadau gwair ychwanegol i Gyngor Gwynedd
4. Llai o wariant torri llwybrau gan ein bod yn trosglwyddo nôl i'r Cyngor Sir - barbio mynwent yn unig.  
**Penderfyniad:** - i leihau'r swm yn y gyllideb i gynnwys barbio mynwent yn unig
5. Cyllideb ar gyfer Cynllun Cymunedol  
Roedd y Cyngor wedi neilltuo £35k ar gyfer y Cynllun Cymunedol – roedd yn debygol na fyddai wedi gwario hwn i gyd eleni– felly byddai angen cario swm sydd heb ei wario ar y Cynllun drosto i 2019/20.  
**Penderfyniad:** cario swm sydd heb ei wario ar y Cynllun drosto i 2019/20
6. Goleuadau Nadolig  
Ystyriwyd e-bost gan y trydanwyr yn nodi sefyllfa'r goleuadau Nadolig a'r angen i brynu goleuadau newydd ar gyfer 2019/20. Roedd y goleuadau yn hen iawn erbyn hyn a nifer wedi methu ar gyfer 2018 - felly i adfer y sefyllfa roedd bil o £4,562.71 ac mi fyddai cost o £300 i ddatgysylltu ym mis Ionawr. Ar sail hyn byddai angen gwariant o £6525+TAW ar oleuadau coed y Maes ar gyfer 2019/20 a hefyd dreifers ar gost £420.00 + TAW a £40.00 cost cludiant. Yn ogystal roedd cyflwr gwael ar oleuadau'r colofnau golau - byddai rhai newydd yn costio tua £280-£600 yn ddibynol ar faint a chymhlethdod y goleuadau. Nodwyd bod yna danwariant am fod yn y gyllideb eleni gan nad oes angen penodi Swyddog Gwarchod Data (£1,000), nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn talu o'r £1,000 am ofod ar gyfer cyfarfodydd ac nad yw'n debygol y bydd unrhyw gynghorydd yn hawlio'r £150 lwfans (£1,800) .  
**Penderfyniad** - i brynu goleuadau coed y Maes allan o gyllideb 2019/20 ac i beidio gwario ar y colofnau golau o gwbl. Y swm yn y gyllideb Nadolig oedd £8,000 - golyga'r penderfyniad gwario mwy na'r gyllideb a osodwyd ar gyfer y goleuadau oherwydd tanwariant mewn costau eraill. Nid oedd y Cyngor Tref yn talu am goeden Nadolig ers 2016 ac roedd hyn yn arbed tua £1,000 y flwyddyn.
7. Gwariant o dan 137(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a oedd yn caniatáu gwariant ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch a hefyd at ddibenion elusennol ac eraill yw £8.12 am bob etholwr ar gyfer 2019/20 - ar sail 1301 o etholwyr Criccieth (cyfredol 27 Tachwedd 2018) golyga hyn £10,564.12.  
**Penderfyniad:** - i barhau i neilltuo swm o £5k ar gyfer y Neuadd Goffa ac i ychwanegu £2k ar gyfer elusennau eraill.
8. Nodwyd nad oedd y gyllideb yn cynnwys swm cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a nodwyd y bydd hi'n debygol y bydd angen trefnu ar gyfer hyn yn y dyfodol.  
**Penderfyniad:** i gael pris am gostau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd fyny at ddwy awr o hyd.
9. Roedd angen penderfynu ar y praesept ar gyfer 2019/20 -roedd e-bost wedi dod gan Gyngor Gwynedd ar 27/11 yn gofyn am fanylion erbyn 25 Ionawr 2019. Nodwyd mai - - Sylfaen Drethiannol Criccieth oedd £944.01. Os bwriedir casglu a hawlio praesept o

£1,000 byddai hynny yn golygu cost o £1.06 o Dreth Cyngor Band D ar gyfer y gymuned hon (h.y. £1,000/944.01)

Felly, am bob £1,000 o gynnydd byddai'n costio tai ym Mand D £1.06 yn ychwanegol.

**Penderfyniad** - Nid oedd lefel y praesept cyfredol yn ddigonol ar gyfer costau cynyddol flynyddol y Cyngor Tref a chytunwyd y dylid codi'r praesept i £42,000 y flwyddyn ac i benderfynu ar y drafft gyllideb ar gyfer 2019/20 (gweler atodiad 1) gan nodi y bydd y Cyngor yn cadarnhau'r gyllideb derfynol ym Mis Mawrth 2019. Nodwyd wrth drafod y gyllideb bod ystyriaeth wedi'i gymryd o'r arian wrth gefn oedd gan y Cyngor Tref a bod angen cadw wrth gefn o leiaf y £30,418.09 yn y cyfrif cefn 'Money Manager' fel mater o arfer dda er mwyn medru delio gyda materion brys annisgwyl.

### **11-12/18: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad**

Nodwyd bod llythyron llongyfarch a diolch wedi eu derbyn gan Uchel Siryf Gwynedd a Criccieth yn ei Blodau.

### **12-12/18 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad**

- a. Nodi bod cyfarfod wedi ei gydlynu ar gyfer casglu syniadau pobl ifanc ar 26/11 –roedd nodiadau wedi ei cylchredeg;
- b. Grŵp economi - Bod bid i Arloesi Gwynedd yn cael ei baratoi - gweler 6 d uchod.
- c. Grŵp cyfleusterau Dinesig a Thwtrwydd - roedd nodiadau 29/11 wedi ei gylchredeg
- d. Grŵp amgylcheddol - roedd nodyn wedi ei gylchredeg

Bydd yr adroddiadau yma yn mynd gerbron y Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol

**Penderfyniad:** Roedd yn dda gweld y gweithgaredd yma. Bydd cyfarfod o'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol am 6 o'r gloch ar 8fed Ionawr i weld os oes modd gwneud cais am y grant £10,000 Arloesi Gwynedd ar gyfer grwpiau cymunedol.

### **13-12/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell**

Roedd y Clerc wedi cyfathrebu gyda'r cyfreithiwr i gadarnhau'r wybodaeth a oedd wedi ei ddanfôn eisoes i Gyngor Gwynedd ac yn nodi dymuniad y Cyngor Tref i'r cyfreithiwr ysgrifennu at Gyngor Gwynedd. Nodwyd bod y Clerc hefyd wedi sgwennu at bwyllgor y Neuadd Goffa i holi a fyddai'r Neuadd yn medru arddangos Hysbysfwrdd y Cadeiryddion. Roedd y Neuadd Goffa yn barod i dderbyn yr Hysbysfwrdd os bydd angen gwneud hynny yn y dyfodol.

**Penderfyniad:** Derbyn yr adroddiad.

### **14-12/18 Trafndiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol**

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at swyddog Cyngor Gwynedd i dynnu sylw at y broblem a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf a bod y Cyngor am wneud asesiad ac adrodd nôl ar ei ganfyddiad maes o law.

**Penderfyniad:** Derbyn yr adroddiad.

### **15-12/18 Torri gwair yn y dref**

Cyng. Eirwyn Williams wedi cael yr ateb - Cartrefi Cymunedol Gwynedd sy'n gyfrifol am dorri'r clawdd yn ardal Ty'n Rhos - maen nhw am gael pris i wneud y gwaith a'i gwblhau dechrau'r flwyddyn

**Penderfyniad:** Derbyn yr adroddiad.

#### **16-12/18 Parcio yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd

#### **17-12/18 Torri coed yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd.

#### **18-12/18 Meinciau Tref Criccieth**

Dim bydd i'w adrodd.

#### **19-12/18 Llwybrau Cyhoeddus**

Byddai'r Clerc yn sgwennu i'r Swyddog gyda phenderfyniad y Cyngor ac i hawlio'r ad-daliad am eleni.

**Penderfyniad:.** Derbyn yr adroddiad

#### **20-12/18 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref**

Roedd angen mwy o amser i ddod 'nôl ag argymhellion i'r Cyngor Tref ar gyfer hysbysfwrdd newydd.

**Penderfyniad:** Derbyn yr adroddiad

#### **21-12/18 Derbyniadau**

Dim

#### **22-12/18: Taliadau**

|   |                        |
|---|------------------------|
| • Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) | £72.70 (siec 101287)   |
| • Cyflog y Clerc (Tachwedd)             | £660.18 (siec 101288)  |
| • Costau Clerc                          | £283.33 (siec 101289)  |
| • R.J. Electrics                        | £4,562.71(siec 101290) |
| • Cyng. Phil Jones                      | £47.50(siec 101291)    |
| • Huw Garmon                            | £150.00(siec 101292)   |
| • Gwyneth Glyn                          | £150.00(siec 101293)   |
| • Twm Morys                             | £150.00(siec 101294)   |
| • Gwasg Cymru                           | £40.80 (siec 101295)   |

**Penderfyniad:** Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 8 Ionawr 2019**.  
**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 31 Rhagfyr 2018\*\***

**Atodiad 1 Drafft Cyllideb 2019/20**

**Incwm**

|  |                |
|--|----------------|
| Praesept                                 | £42,000        |
| Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn ) | £32,160        |
| <b>Cyfanswm</b>                          | <b>£74,160</b> |

**Gwariant**

|                          |                |
|--------------------------|----------------|
| Cyflog                   | £9,000         |
| Yswiriant                | £1,700         |
| Cynnal llwybrau          | £600           |
| Torri Gwair              | £5,000         |
| Rhent stafell            | £1,000         |
| Stampiau                 | £150           |
| Costau swyddfa           | £100           |
| Aelodaeth                | £400           |
| Cyfrifon (archwilio)     | ....£600       |
| Cyrsiau                  | ....£400       |
| Nadolig                  | £8,000         |
| Sul y Cofio              | .....£25       |
| Deddf data               | .....£35       |
| Costau Clerc swyddfa     | .....£850      |
| Costau Clerc teithio     | .....£300      |
| Toiledau                 | £6,000         |
| Manion/arall             | £3,000         |
| Cyfraniad Neuadd Goffa   | £5,000         |
| Cyfraniadau eraill       | £2,000         |
| Prosiectau               | £30,000        |
| <b>CYFANSWM CYLLIDEB</b> | <b>£74,160</b> |